# PEIRIANNEG L1

**Tystysgrif Lefel 1 City and Guilds mewn Peirianneg**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Tystysgrif Lefel 1 City and Guilds mewn Peirianneg
**Corff Dyfarnu:** City and Guilds (2850-10)

## Cyflwyniad i'r pwnc

Mae'r cwrs yn cynnig llwybr gwahanol trwy gymhwyster galwedigaethol ac yn darparu profiad realistig mewn amgylchedd diwydiannol wrth barhau i fod yn yr ysgol. Bydd y sgiliau a gaiff eu meithrin yn amhrisiadwy i unrhyw ddarpar beiriannydd. Mae'r cwrs yn benodol yn cynnig sylfaen dda i'r rhai hynny sy'n dymuno cael gwaith yn y diwydiant a symud ymlaen i brentisiaeth yn y Sector Peirianneg. Mae hefyd yn galluogi dysgwyr i brofi Peirianneg mewn disgyblaethau gwahanol ac yn eu helpu i ddewis eu llwybr tuag at gyrsiau Addysg Bellach llawn amser ôl-16.

## Cynnwys y Cwrs

Bydd dysgwyr yn cwblhau'r 'Dystysgrif Lefel 1 City and Guilds mewn Peirianneg' dros ddwy flynedd, gan ymweld â Ffordd y Bers un prynhawn yr wythnos. Mae'r cymhwyster yn cynnwys:

**1 Uned orfodol -** **101 Gweithio mewn Peirianneg**
**2 Uned ddewisol -** **102 Technegau Gosod Sylfaenol**
**114 Technegau Cynnal a Chadw Mecanyddol**

Bydd dysgwyr yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y gweithdai yn Ffordd y Bers a bydd disgwyl iddyn nhw greu darnau ymarferol o waith a fydd yn cael eu hasesu fel rhan o'r cymhwyster. Yn ogystal â hyn, bydd dysgwyr yn treulio ychydig o amser yn yr ystafelloedd dosbarth yn Ffordd y Bers i ddysgu a deall y wybodaeth ddamcaniaethol y tu ôl i bob uned. Byddant yn ymgymryd ag un asesiad cwestiynau amlddewis i gwblhau'r uned orfodol 101, Gweithio mewn Peirianneg.

Fel rhan o'r cwrs, bydd dysgwyr yn ymweld â meysydd eraill peirianneg i gael gwybodaeth ehangach am Beirianneg. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Sgiliau a thechnegau llenfetel
- Cynnal a chadw a gosod
- Sgiliau Electroneg
- Creu lluniadau peirianneg
- Systemau CAD

## Costau

Mae disgwyl i ddysgwyr brynu eu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) eu hunain. Gellir eu prynu trwy'r Coleg am oddeutu £25.00.

Dolen at wefan cyflenwr y coleg:
[Peirianneg Macron]